

Disgrifiad swydd a manyleb person

Cysylltydd Dementia (35 awr yr wythnos)			
Graddfa gyflog	2b	Cyfeirnod swydd	
Adran	Iechyd a Gofal	Is-adran	Gweithrediadau'r DU
Lleoliad gwaith	Yn cwmpasu ardal Castell-nedd Port Talbot a Bae Abertawe	Yn adrodd i	Rheolwr Gwasanaeth Byw'n Annibynnol
Hyd y swydd	Cyfnod penodol	Diweddarwyd ddiwethaf	Tachwedd 2024

Graddfa a chwmpas y rôl

Adroddiadau uniongyrchol	Dim	Adroddiadau anuniongyrchol	Dim
Cyfrifoldeb / atebolrwydd cyllidebol	Dim	Atebolrwydd dros adnoddau eraill	Dim
Cyrhaeddiad ac effaith	Bydd y Cysylltydd Cymunedol yn gyfrifol am weithio gydag asiantaethau partneriaeth i gefnogi pobl sydd newydd gael diagnosis o ddementia.		

Cyd-destun

Mae'r Groes Goch Brydeinig yn helpu pobl mewn argyfwng, pwy bynnag a lle bynnag y bônt. Rydym yn rhan o rwydwaith gwirfoddol byd-eang, sy'n ymateb i wrthdaro, trychinebau naturiol ac argyfyngau unigol. Rydym yn galluogi pobl agored i niwed yn y DU a thramor i baratoi ar gyfer ac i wrthsefyll argyfyngau yn eu cymunedau eu hunain. A phan fydd yr argyfwng drosodd, rydym yn eu helpu i wella a symud ymlaen â'u bywydau. O fewn y DU, mae'r Groes Goch Brydeinig yn gweithredu trwy dros 3000 o staff a dros 20,000 o wirfoddolwyr.

Mae'r gwasanaeth Iechyd a Gofal yn cefnogi pobl yn y gofod rhwng yr ysbyty a'r cartref ac yn ymateb i anghenion pobl mewn argyfwng yn dilyn argyfwng; gan gynnal rhwydwaith helaeth o berthnasoedd allanol ar draws ieuchyd, gofal cymdeithasol, a gwasanaethau brys.

Diben cyffredinol y rôl

Bydd y Cysylltydd Cymunedol yn gweithio gyda phobl a'u teuluoedd sydd newydd gael diagnosis o Ddementia.

Byddant yn darparu cymorth ymarferol tymor byr, anogaeth gadarnhaol a chefnogaeth emosiynol wedi'i deilwra i anghenion yr unigolion ac ar gael i bob rhan o'r gymuned o fewn meini

Job description and person specification

prawf y gwasanaeth. Byddant yn gyfrifol am ddatblygu perthnasoedd gwaith effeithiol gyda phob partner, rhanddeiliad a sefydliad lleol er mwyn creu rhwydweithiau cymdeithasol a gweithgareddau lleol y gall y gymuned eu cynnal yn y tymor hwy.

Mae'r rôl hon wedi'i lleoli o'r cartref gyda theithio i swyddfeydd y Groes Goch Brydeinig yn ôl yr angen. Bydd gofyn iddynt deithio ledled eu hardal leol. Rheolwr y Gwasanaeth fydd rheolwr llinell y rôl a byddant yn rhan o'r Tîm Iechyd a Gofal Ardal.

1. Darparu gwasanaethau

- > Datblygu, cydweithio â, a chynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol ac effeithiol gydag asiantaethau partneriaeth ledled y gymuned, gan eu cynnwys wrth baratoi cynigion ar gyfer gweithgareddau a phrosiectau lleol trwy ddull aml-asiantaeth, integredig
- > Galluogi atgyfeiriadau a chysylltiadau rhwng unigolion a darparwyr gwasanaethau
- > Ymgysylltu wyneb yn wyneb â defnyddwyr gwasanaethau i nodi anghenion penodol ac ymyriadau priodol
- > Helpu pobl i gynnal ac adennill annibyniaeth trwy fentrau i hwyluso a chefnogi sy'n cyd-fynd â'u hanghenion, eu dyheadau a'u pryderon
- > Cefnogi pobl i fynychu gwasanaeth cymunedol lleol sy'n addas i'w hanghenion, helpu i nodi gweithgareddau eraill yn yr ardal a mynd gyda nhw yn ôl yr angen i helpu i feithrin hyder
- > Cynnal cysylltiad â'r buddiolwr i fonitro cynnydd yn erbyn nodau a dileu cyswllt yn raddol wrth i unigrwydd ac ynysu cymdeithasol gael eu lleddfu
- > Darparu gwybodaeth, cyfeirio a hyrwyddo o ansawdd uchel i ystod eang o wasanaethau
- > Datblygu'r gwasanaeth, gan ddarparu cefnogaeth, arweinyddiaeth a chymhelliant i'r staff a'r gwirfoddolwyr
- > Hyrwyddo'r gwasanaeth yn effeithiol

2. Ansawdd a pherfformiad

- > Sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithlon, yn ddibynadwy ac yn cael ei ddarparu'n gyson â chanllawiau cenedlaethol a lleol, gan ddefnyddio'r Fframwaith Safonau Ansawdd fel sail ar gyfer asesu
- > Sicrhau bod effaith ein gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth defnyddwyr yn cael eu cofnodi drwy gofnodion priodol (megis BRM), cwblhau adroddiadau a gwaith papur yn ôl yr angen
- > Diweddarau a chynnal systemau'n rheolaidd ar gyfer monitro, adolygu a gwerthuso'r ddarpariaeth gwasanaeth drwy ddefnyddio holiaduron a dulliau eraill o adborth a ddefnyddir gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac asiantaethau partner
- > Diweddarau cofnodion yn rheolaidd sy'n ymwneud â phob agwedd ar y gwasanaeth a chasglu'r wybodaeth yn adroddiadau ac ystadegau i'w defnyddio gan y Rheolwr Gwasanaeth pan fo angen
- > Sicrhau bod y gwasanaeth yn cael cyhoeddusrwydd digonol ac yn cael ei gynrychioli'n llawn i'r rhai yn yr asiantaethau statudol a gwirfoddol a all ddefnyddio'r gwasanaeth
- > Bod yn ymwybodol o ymchwil ac arfer cyfredol i lywio sefydlu gweithgareddau a phrosiectau lleol
- > Cyfrannu at y broses o gynhyrchu cynlluniau lleol drwy amlygu anghenion pobl agored i niwed

Disgrifiad swydd a manyleb person

> Cynnal asesiadau risg pan fo angen ar y defnyddiwr gwasanaeth, yr amgylchedd a gwirfoddolwyr. Rhybuddio'r Rheolwr Gwasanaeth am unrhyw bryderon ynghylch atgyfeiriadau > Cadw cofnodion electronig a phapur priodol, cwblhau adroddiadau yn ôl yr angen a chynorthwyo i lunio astudiaethau achos

3. Rheoli

> Darparu canllawiau a chefnogaeth i'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio o fewn y gwasanaeth, cyfathrebu'n rheolaidd â nhw a sicrhau eu bod yn cwblhau gwaith papur perthnasol yn dilyn ymweliad. > Gweithio gyda phartneriaid busnes perthnasol wrth recriwtio, sefydlu, datblygu, hyfforddi ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr sy'n darparu'r gwasanaeth

4. Aelod o'r tîm

> Bod yn wrth gefn i Gydlynwyr Gwasanaeth eraill yn ystod cyfnodau o absenoldeb

> Gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod deddfwriaeth iechyd a diogelwch ac asesiadau risg yn cael eu deall a'u gweithredu, a bod diogelwch staff a gwirfoddolwyr yn cael ei sicrhau

> Ymgymryd â hyfforddiant mewn diogelu. Nodi ac adrodd unrhyw bryderon ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, gwirfoddolwyr neu staff gan ddefnyddio gweithdrefnau priodol

> Dilyn polisïau a gweithdrefnau ynghylch diogelu data, iechyd a diogelwch, gweithio ar eich pen eich hun a chyfrinachedd

> Ymgymryd â hyfforddiant yn ôl yr angen a bod yn barod i deithio o fewn yr ardal i fynychu unrhyw gyfarfodydd perthnasol

> Darparu cefnogaeth yn ôl yr angen i swyddogaeth ymateb argyfwng gyffredinol y Groes Goch Brydeinig – e.e. cefnogaeth i gydweithwyr yn yr Adran Achosion Brys yn ystod digwyddiad llifogydd difrifol

> Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd

Ni chaiff staff wrthod cais yn afresymol i ymgymryd ag unrhyw dasg sy'n briodol i'w lefel y mae ganddynt y sgiliau a/neu'r profiad angenrheidiol ar ei chyfer. Bydd unrhyw newid sy'n deillio o hyn i'w hamcanion a'u blaenoriaethau yn cael ei drafod a'i gadarnhau gyda'u rheolwr llinell.

Manyleb person

N. B.: defnyddir y ddogfen hon i ddatblygu rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer unrhyw swydd wag ar gyfer y rôl hon ac yna caiff ei defnyddio yn y broses ddethol ddilynol. Yna bydd yn sail i gynllun datblygu ar gyfer unigolyn a benodir i'r rôl hon.

	Gofynion
Sgiliau	> Sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu rhagorol > Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac ar eich menter eich hun** > Rheoli amser ac ymateb i a blaenoriaethu ystod o alwadau cystadleuol trwy reoli amser > Yn gallu cynllunio eich llwyth gwaith eich hun** > Y gallu i ddelio ag ymholiadau mewn modd diplomyddol, proffesiynol a chyfrinachol

	> Ardderchogrwydd da dros y ffôn Y gallu i gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol**
Gwybodaeth (gan gynnwys addysg a hyfforddiant)	> Addysg hyd at lefel TGAU (neu gyfwerth trwy brofiad)** > Llythrennog mewn TG** > Gwybodaeth ymarferol am feddalwedd taenlenni, e-bost, meddalwedd ar y we a phrosesu geiriau > Gwybodaeth am Oruchwyllo > Dealltwriaeth o sut i wella ansawdd gwasanaeth er budd defnyddwyr** > Gwybodaeth am yr ardal leol a wasanaethir gan y cynllun** > Gwybodaeth am sut mae cymunedau'n gweithio Gwybodaeth am Dementia
Profiad	> Profiad o wirfoddoli > Cyfranogiad mewn amgylchedd tîm amlddisgyblaethol > Profiad o weithio yn y sector gwirfoddol > Profiad o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'r cyhoedd > Profiad o ddod o hyd i wybodaeth drwy'r rhwyngwyd a ffynonellau eraill > Profiad o weithio gydag unigolion â dementia
	Gwybodaeth am wasanaethau a ddarperir gan y GIG a Gofal Cymdeithasol**
Cymwyseddau	> Deiliad trwydded yrru lawn a mynediad i gerbyd** > Cefnogi a goruchwyllo prosiectau a gweithgareddau > Arwain pobl: Cymell, cyfarwyddo a chefnogi eraill i gyflawni gweledigaeth, cenhadaeth a strategaeth y Groes Goch** > Meddwl arloesol a chreadigol > Rheoli a datblygu eich hun

	> Recriwtio a dewis unigolion > Cefnogi a datblygu unigolion > Cymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau a gweithredoedd eich hun a'ch tîm > Gwybodaeth am yr ardal leol > Gallu monitro gweithdrefnau ariannol lleol > Dealltwriaeth o sut i wella ansawdd gwasanaeth er budd defnyddwyr > Gwybodaeth ymarferol am arferion iechyd a diogelwch Dealltwriaeth o'r broses Asesu Risg
Ymddygiadau	> CANOLBWYNTIO AR BOBL MEWN ARGYFWNG > Dod o hyd i ffyrdd o ddiffinio a gwella gwasanaethau i bobl mewn argyfwng yn barhaus > ATEBOL AM ADNODDAU > Cydnabod a chyfleu i eraill ein cyfrifoldeb i'n rhoddwyr a'n cefnogwyr wrth wneud y defnydd mwyaf o gronfeydd ac adnoddau > CEISIO MEWNWELIAD > Dod o hyd i'r rhai sydd agosaf at y mater ac ymchwilio ymhellach > COFLEIDDIO AC ARWAIN NEWID > Goresgyn rhwystrau ac ymdrin ag ymwrthedd ynghylch gwneud pethau'n wahanol, yn sensitif ac yn barchus > GWEITHIO AR Y CYD > Yn helpu eraill i ddeall y tir cyffredin
	> CYFATHREBU A DYLANWADU > Yn addasu eu dull cyfathrebu a'u neges i gydfynd â chynulleidfya benodol > ARWAIN AC YMGYSYLLTU > Yn ymgynghori â'r tîm / unigolion ar faterion sy'n effeithio arnynt > DATBLYGU EICH HUN AC ERAILL

	> Yn cefnogi datblygiad pobl eraill trwy rannu gwybodaeth, sgiliau a dysgu > CANOLBWYNTIO AR ATEBION > Yn rhagweld rhwystrau, yn meddwl ymlaen llaw am y camau nesaf a'r rhagolygon > RHEOLI EFFAITH BERSONOL > Modelau rôl ymddygiad da i gyflawni gweledigaeth y sefydliad
Gofynion ychwanegol	> Cynnal yr Egwyddorion Sylfaenol a gweithredu gyda gonestrwydd, yn unol â rhwymedigaethau a gwerthoedd y Gymdeithas (cynhwysol, tosturiol, dewr, a deinamig). > Sicrhau arfer gwrth-wahaniaethol a hyrwyddo amrywiaeth. > Parodrwydd i weithio oriau hyblyg** > Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant yn ôl yr angen > Gallu teithio o gwmpas yr ardal yn ôl yr angen

N.B. Bydd pob ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol, a ddynodir gan **, yn cael eu rhoi ar restr fer ar gyfer cyfweliad yn unol â'n hymrwymiad o dan y cynllun symbol dau dic.